



CYSTADLEUAETH - TAITH (RITH-REALITI) TRWY AMRYWIAETH IEITHYDDOL EWROP

Yn Ewrop, gall 40 i 50 miliwn o bobl siarad un o'i 60 iaith leol a lleiafrifol gyda phob un ohonynt yn cynrychioli hanes, diwylliant a thraddodiadau unigryw eu cymunedau.

Mae'r ieithoedd hyn yn creu amrywiaeth ieithyddol ac yn perthyn i dreftadaeth anniriaethol dynoliaeth. Mae amrywiaeth ieithyddol yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio ein hunaniaeth ac mae'n hanfodol i wead ein treftadaeth.

Nid cyfathrebu yn unig yw nod amrywiaeth ieithyddol, ond cadw gwybodaeth, hanesion a ffyrdd o fyw wedi'u pasio o genhedlaeth i genhedlaeth. Gall deall a gwerthfawrogi'r ieithoedd hyn faethu mwy o barch tuag at amrywiaeth ddiwylliannol a chryfhau'r cysylltiadau sy'n ein huno fel pobl Ewrop.

Pa ffordd well i werthfawrogi rhywbeth na dod i'w adnabod? Rydym yn dy wahodd i'n helpu ni i fynd ar daith i ddarganfod amrywiaeth ieithyddol Ewrop. Dyma nod y gystadleuaeth: arddangos amrywiaeth ieithyddol Ewrop er mwyn i ni ddysgu ei charu a'i chadw, a hynny trwy ddod i'w adnabod.

AMODAU'R GYSTADLEUAETH

PWY ALL GYMRYD RHAN?

Disgyblion uwchradd rhwng 12 a 18 oed sydd yn mynychu unrhyw ysgol yn Ewrop mewn grwpiau o hyd at 12 disgybl. Does dim uchafswm o grwpiau fesul ysgol.

NOD Y GYSTADLEUAETH

Creu profiad rhith-realiti sy'n uwch oleuo amrywiaeth ieithyddol Ewrop, gan ganolbwyntio ar yr ieithoedd canlynol: Catalaneg, Basgeg, Galiseg, Corseg, Llydaweg, Occitaneg, Lladin, Ffriwleg, Mochèno, Cimbri, Sardineg, Cymraeg, Gaeleg yr Alban, Ffrisieg, Sorbeg, Hwngareg (yn Romania), Swedeg (yn y Ffindir), Nynorsk, Ffinneg (yn Sweden), Gwyddeleg, a Macedoneg.

BETH SYDD YN RHAIID I TI EI WNEUD?

Rydym yn gwahodd y cystadleuwyr i greu stori i'w chyflwyno trwy declyn profi rhith-realiti. Yr her yw arddangos amrywiaeth ieithyddol Ewrop trwy ddewis 3 o'r ieithoedd uchod. Dylai'r stori gyflwyno'r ieithoedd mewn ffordd sy'n helpu disgyblion eraill i ddysgu mwy amdanyn nhw: eu gwreiddiau, cerddoriaeth, llenyddiaeth a chynhyrchiad celfyddydol, eu synau, y gwerth





sydd ganddynt ar gyfer hunaniaeth eu siaradwyr, ac ati. Mae'r enghreifftiau isod i'ch ysbrydoli wrth ysgrifennu'r sgript.

ENGHRAIFFT 1:

Dychmyga masnachwr Ffriwlig o'r 16eg ganrif sy'n gadael dinas Udine gyda'i gynnyrch yn ceisio cyrraedd ynys Corsica. Ar ei daith, mae'n pasio trwy Val di Fassa, lle mae'n dod ar draws ieithoedd Lladin y Dolomiti. Dyddiau wedyn, mae'n cyrraedd Luserna ac yno'n darganfod iaith Germanaidd, Cimbrieg, sy'n ei swyno. O'r diwedd mae'r masnachwr yn cyrraedd ynys Corsica, lle mae'n darganfod mai'r iaith Gorseg yw iaith gymdeithasol yn y teulu a gyda ffrindiau. Y ieithoedd yn y stori yw: Ffriwleg, Lladin a'r Gorseg.

ENGHRAIFFT 2:

Nawr, dychmyga bysgotwr o Wlad Basg o'r 19eg ganrif sy'n siarad Basgeg. Mae'n mynd ar daith ar hyd arfordir yr Iwerydd nes iddo gyrraedd porthladd Brest, lle mae'n aros am rai dyddiau. Yno, mae'n darganfod y Llydaweg a dod i adnabod ei cherddoriaeth a'i llên gwerin. Yn fuan wedyn, mae'n gadael am Galway, ond mae ei gwch yn suddo ger creigiau tref Tragunma yn Iwerddon. Mae pysgotwr lleol yn ei achub ac felly mae'n dysgu am y Wyddeleg wrth iddo wella yn nhŷ teulu'r pysgotwr. Ieithoedd yn y stori: Basgeg, Llydaweg, Gwyddeleg

ENGHRAIFFT 3:

Yn olaf, dychmyga fyfyrwr Erasmws o Barcelona, siaradwr Catalaneg, sydd wedi cael ei dderbyn i astudio yn Leeuwarden am semester. Mae'n penderfynu gwneud rhan o'i daith ar y trê'n, ac mae'r stop cyntaf yn Perpignan yn Ffrainc. Ar ôl cyrraedd a cherdded trwy ganol hanesyddol y ddinas, mae'n darganfod bod rhai pobl leol yn siarad Catalaneg gyda'i gilydd! Wedyn, mae'n cymryd y trê'n i Toulouse, lle mae'n cwrdd â 2 siaradwr ifanc yr Occitaneg sy'n sôn wrtho am eu hiaith. O'r diwedd, mae'n cyrraedd Leeuwarden, prif ddinas Ffrisland yng ngogledd yr Iseldiroedd. Ar ei ddiwrnod cyntaf yn y dosbarth, mae'n cyfarfod myfyrwyr sy'n siarad Ffriseg! Ieithoedd yn y stori: Catalaneg, Occitaneg a Ffriseg.

CANLLAW SUT I GREU STORI

NARATIF

1. Rhaid dweud y stori yn y person cyntaf (y prif gymeriad) ond gall ryngweithio â chymeriadau eraill trwy gael sgwrs, dangos elfennau sy'n ymwneud â'r iaith, ayyb.
2. Ni ddylai'r stori fod yn hirach na thri munud a hanner (rhwng 400 a 500 o eiriau).
3. Dylet ddangos tair iaith yn dy stori a darparu gwybodaeth berthnasol.





DIGWYDDIADAU AC ELFENNAU

1. Gall yr amgylchedd (scenario) newid, gall gynnwys golygfeydd o dirweddau gwahanol, e.e. arwyddion gorsafoedd trên mewn ieithoedd eraill, synau a cherddoriaeth sy'n nodweddiadol i ardaloedd gwahanol.
2. Yn ychwanegol at hyn, gallai gynnwys sgwrs rhwng y cymeriadau rwyt ti wedi'u creu ar gyfer dy stori.
3. Rhaid cynnwys elfennau gweledol sy'n cynrychioli'r ieithoedd a'r diwylliannau rwyt ti eisiau eu pwysleisio, megis gwrthrychau neu fwydydd nodweddiadol. Os wyt ti eisiau, cei ddarparu cyfarwyddiadau llwyfan sy'n dangos sut mae'r cymeriadau yn rhyngweithio gyda'r gwrthrychau yn y stori.

CREADIGRWYDD A RHYDDID

1. Paid â theimlo dy fod yn cael dy gyfyngu gan leoliadau na thirwedd. Er ein bod yn awgrymu trên, cart neu gwch, cei ddychmygu unrhyw gerbyd neu amgylchedd.
2. Dy ddewis di ydy sut rwyt ti'n dangos a dychmygu'r amgylchedd. Rydym yn awyddus i weld dy greadigrwydd wrth gyflwyno a chynrychioli'r ieithoedd rwyt ti wedi'u dewis

ADNODDAU AC OFFER

1. Cei ddefnyddio unrhyw adnoddau sy'n dy helpu di i greu dy stori: mae cerddoriaeth, gwrthrychau, cymeriadau, a rhyngweithio yn offer sydd ar gael i ti, ond does dim rhaid i ti ddefnyddio nhw i gyd.

... AWGRYMIADAU YCHWANEGOL AR SUT I ADEILADU STORI I'R BENNOD RHITH-REALITI

1. Beth ydy bwriad dy stori? Beth rwyt ti eisiau ei gyflwyno?
2. Pwy ydy prif gymeriad y stori?
3. Beth yw'r prif gynllun? Oes rhai sgysiau?
4. Beth yw'r wybodaeth benodol dylai gael ei rhannu?
5. Pa fath o deimladau hoffet ti eu creu?

I GYSTADLU

Anfona'r sgrïpt ar y cyd ag unrhyw ddeunydd sy'n atodol (os oes) trwy e-bost at npld@npld.eu

CANLLAWIAU I GYFLWYNO'R STORI

Rhaid cyflwyno'r prosiect terfynol, gan gynnwys yr holl ddeunyddiau sy'n angenrheidiol i feirniadu dy waith (dyluniadau, lluniau, testun, ayyb.) cyn 3ydd o Chwefror 2025.





Byddwn ni'n e-bostio'r enillydd erbyn 21ain o Chwefror 2025, ar Ddiwrnod Rhyngwladol Mamiaith.

Bydd y bennod rhith-realiti yn cael ei chyhoeddi erbyn 5ed o Fai 2025.

MEINI PRAWF I FEIRNIADU

1. **Gwreiddioldeb a chreadigrwydd:** y gallu i greu stori unigryw ac arloesol sy'n cynrychioli/dangos amrywiaeth ieithyddol.
2. **Naratif a chydlyniad:** stori glir, digwyddiadau wedi'u cydlynu'n dda, a chyflwyniad y sript.
3. **Defnydd o'r lleoliad:** Sut rwyd ti'n defnyddio'r amgylchedd symudol i gyfoethogi'r stori yn ogystal â phrofiad y gynulleidfa i ddysgu mwy am amrywiaeth ieithyddol Ewrop.
4. **Integreiddiad ieithyddol:** Sut rwyd ti'n cynnwys yr ieithoedd a'r diwylliannau sy'n cael eu cynrychioli yn dy stori.

GWOBRAU A CHYDNABYDDIAETH

Bydd yr enillwyr yn cael cyfle i weithio ar ail sript neu ddarn o ddweud stori, y tro hwn gyda ffocws ar iaith eu cymuned yn unig. Bydd y bennod rith-realiti newydd honno'n barod ar 25ain o Fedi 2025, ar gyfer Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd.

Y BEIRNIAID

Bydd y panel o feirniaid yn cynnwys cynrychiolydd yr aelodau NPLD canlynol yn ogystal ag aelod o Bwyllgor Cadeirydd NPLD: Talaith Ffrisland, Talaith Annibynnol Trento, ARLeF, Prifysgol Gristnogol Partium, Xarxa Vives d'Universitats, Prifysgol Stockholm, Cyngor Talaith Bizkaia, a Llywodraeth Cymru.

ADNODDAU AMRYWIAETH IEITHYDDOL

Efallai y bydd y dogfennau canlynol yn ddefnyddiol i ti ddysgu am ieithoedd lleol a lleiafrifol yn Ewrop. Mae yna nifer fawr o adnoddau eraill ar gael hefyd:

1. [Regional and minority languages in the European Union. European Parliament briefing September 2006.](#)
2. [Multilingualism: the language of the European Union. European Parliament briefing September 2019](#)
3. [Article: Why some of Europe's oldest languages are at risk of going extinct](#)
4. [European Charter for Regional or Minority Languages. The Council of Europe](#)





YMWADIAD

Trefnir y gystadleuaeth “Taith (rith-realiti) trwy Amrywiaeth Ieithyddol Ewrop” gan aelodau prosiect ECCA ac ariennir y gystadleuaeth gan y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol/the Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD).

